# CYNGOR ECOLEGOL I'R RHAI SY'N CYFLWYNO CEISIADAU CYNLLUNIO

# Pam y gallai fod angen arolygon ystlumod ac adar nythu ar eich cais cynllunio

**Goeffennaf 2022**

Paratowyd y nodyn cyngor hwn i egluro i'r rhai sy'n cyflawni prosiectau datblygu lle mae angen caniatâd cynllunio, pam y gallai fod angen arolygon ystlumod ac adar sy'n nythu ar eu cynigion.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau nad yw'r datblygiadau y mae'n rhoi caniatâd cynllunio ar eu cyfer yn arwain at aflonyddu ar ystlumod neu glwydi ystlumod, nac ychwaith ar adar sy'n nythu, eu nythod, na'u hwyau. Bydd Rheoli Datblygu yn craffu'n fanwl ar y ceisiadau sydd fwyaf tebygol o effeithio ar ystlumod neu adar sy'n nythu a chynefinoedd a rhywogaethau eraill. Byddant yn sicrhau, cyn i'r caniatâd cynllunio gael ei ganiatáu, fod y mater hwn wedi'i ddatrys. Os na fydd yn cael ei ddatrys gall fod yn rheswm dros wrthod caniatâd cynllunio.

Os bydd Rheoli Datblygu, ar ôl asesu eich cynigion, o'r farn y gallai fod effaith ar ystlumod neu eu clwydi, a/neu ar adar sy'n nythu, bydd gofyn i chi gynnal arolwg ar eich safle o ystlumod a/neu adar sy'n nythu. Fel rhan o'r arolwg hwn, dylech hefyd nodi sut bydd unrhyw effaith ar y rhywogaethau gwarchodedig hyn yn cael eu rheoli.

I gwblhau'r arolwg hwn, dylech gyflogi ecolegydd cymwys â phrofiad addas i asesu eich cynnig a'ch cynghori am y ffordd orau ymlaen. Bydd llawer o ecolegwyr yn cynnig arolwg cwmpasu ystlumod yn ystod y dydd ac yn asesu addasrwydd adeilad neu goed i gefnogi ystlumod a chynghori a oes angen arolygon gyda'r wawr a chyda'r hwyr ai peidio. Gallant asesu ar yr un pryd unrhyw faterion o ran adar sy'n nythu.

Gallwch ystyried ffyrdd o reoli eich prosiect a fydd yn lleihau unrhyw effaith ar ystlumod ac adar sy'n nythu:

- cwblhau gwaith ar doeau neu ofod toeau pan nad oes ystlumod yno e.e. os nad yw ystlumod yn defnyddio'r gofod to i aeafgysgu, cwblhewch y gwaith rhwng Hydref a Mawrth pan na fydd ystlumod yno, ond cadwch fynediad i ystlumod fel bo'r ystlumod yn gallu dychwelyd i'r to yr haf canlynol. Peidiwch â gwneud unrhyw newid materol i'r nodweddion yn y gofod to mae'r ystlumod yn ei ddefnyddio

- cwblhau gwaith mewn ardaloedd a allai effeithio ar adar sy'n nythu y tu allan i'r tymor nythu adar, felly'n fras rhwng canol mis Awst a diwedd mis Chwefror.

Sylwer nad oes diffiniad cyfreithiol o'r tymor nythu adar - os yw aderyn yn nythu mae'n cael ei warchod gan y gyfraith.

Mae gwella bioamrywiaeth hefyd yn ofynnol yn achos llawer o geisiadau cynllunio. Argymhellir eich bod yn gofyn i'ch ecolegydd roi cyngor am fesurau gwella priodol y gall eich prosiect eu cyflawni.

Gallwch hefyd ddylunio eich prosiect i gynnig cyfleoedd newydd i ystlumod ac adar sy'n nythu, ac mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod a gwefannau'r RSPB ymhlith eraill yn cynnwys manylion y mesurau hyn. Bydd ecolegydd cymwys hefyd yn gallu eich cynghori ymhellach ynghylch y materion hyn. Gall mesurau gynnwys:

- sicrhau bod unrhyw strwythur addas presennol yn parhau i fod ar gael i ystlumod ac adar sy'n nythu
- dylunio unrhyw oleuadau awyr agored i fod yn fach iawn ac i ganolbwyntio tuag at y ddaear a mannau ble mae angen y golau
- gan gynnwys nodweddion annatod newydd megis bondo bargodol a fydd yn cynnig cyfleoedd newydd i adar sy'n nythu yn hytrach na defnyddio blychau nythu, sy'n dueddol o fod ag oes gymharol fyr
- cynnal, rheoli a gwella'r llystyfiant ar eich tir fel cynefin bywyd gwyllt e.e. coed, llwyni a gwrychoedd,

**Os ydych yn bwriadu ymgorffori unrhyw un o'r mesurau uchod neu debyg yn eich prosiect, dywedwch wrthym ac anodwch y rhain ar gynllun(iau) fel y gallwn ddeall eich cynigion a rhoi ystyriaeth iddynt wrth i ni benderfynu ar eich cais**.

Mae'n werth cofio bod ystlumod ac adar sy'n bwydo ar wybed a mosgitos yn fath o reolaeth fiolegol naturiol, a fyddai'n aml yn cael ei chroesawu!

Cofiwch fod ystlumod ac adar yn symudol iawn ac efallai y byddant yn dechrau defnyddio adeilad y tybiwyd eu bod yn absennol ohono.

## CYNGOR ar y GYFRAITH, YSTLUMOD ac ADAR SY'N NYTHU

### YSTLUMOD:

- Mae pob rhywogaeth o ystlumod Prydain yn Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop yn rhinwedd y ffaith eu bod wedi'u rhestru o dan Atodiad IV o Gyfarwyddeb y CE 92/43/EEC ('Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd’). Mae'r Gyfarwyddeb hon wedi'i throsi i Gyfraith Prydain o dan *Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2019* (fel y'i diwygiwyd).

- Mae Rheoliad 9(1) o Reoliadau 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cynllunio lleol, wrth arfer ei holl swyddogaethau, roi sylw i ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd i'r graddau y gallai'r swyddogaethau hynny effeithio arno.

O dan Reoliad 43 o Reoliadau 2019, mae'n drosedd:

*(1) dal, anafu neu ladd yn fwriadol unrhyw anifail gwyllt sydd o rywogaeth a warchodir gan Ewrop*
*(2) tarfu'n fwriadol ar anifeiliaid sydd o unrhyw rywogaeth o'r fath. Mae tarfu ar anifeiliaid yn cynnwys yn benodol unrhyw aflonyddwch sy'n debygol—*

*(a) o amharu ar eu gallu—*

*(i) i oroesi, i fridio neu i genhedlu, neu i fagu neu feithrin eu hepil; neu*

*(ii) yn achos anifeiliaid o rywogaethau sy'n gaeafgysgu neu'n mudo, i aeafgysgu neu fudo; neu*

*(b) o effeithio'n sylweddol ar ddosbarthiad neu helaethrwydd lleol y rhywogaethau y maent yn perthyn iddynt*

*(3) cymryd neu ddinistrio wyau anifail o'r fath yn fwriadol; neu*
*(4) difrodi neu ddinistrio safle bridio neu fan gorffwys anifail o'r fath* (gan gynnwys safleoedd sydd yn wag ar hyn o bryd).

- Ymhellach, caiff holl ystlumod Prydain eu gwarchod o dan Atodlen 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) (fel y'i diwygiwyd). Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn drosedd mynd ati'n fwriadol i ladd, anafu, cymryd o'r gwyllt, meddu neu fasnachu i mewn unrhyw rywogaeth o Ystlumod Prydain, yn ogystal â difrodi, dinistrio neu rwystro mynediad yn fwriadol neu'n ddi-hid i unrhyw strwythur neu fan y mae ystlumod yn ei ddefnyddio i gysgodi neu i fod yn ddiogel. Mae hefyd yn drosedd tarfu ar ystlum/ystlumod tra byddant yn defnyddio man o'r fath.

- Fel tirfeddiannwr neu ddatblygwr, os ydych yn amau bod ystlumod yn yr adeilad, dylai ecolegydd cymwys gynnal arolwg **cyn** rhoi caniatâd cynllunio.

- Os deuir ar draws ystlumod ar y safle, dylai'r gwaith ddod i ben ar unwaith a dylid cysylltu â CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru, - Ymholiadau Cyffredinol: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu drwy ffonio 0300 065 3000 Llun-Gwener, 8am - 6pm) - efallai y bydd angen gwneud cais am drwydded datblygu EPS. Ni roddir trwyddedau'n awtomatig yn rhinwedd caniatâd cynllunio dilys, ac efallai y bydd yn bosibl gwrthod y cais am y drwydded angenrheidiol.

**ADAR SY'N NYTHU**

- O dan Adran 1 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) mae'n drosedd lladd neu anafu unrhyw aderyn gwyllt, cymryd, difrodi neu ddinistrio nyth unrhyw aderyn gwyllt tra bo'r nyth hwnnw'n cael ei ddefnyddio neu'n cael ei adeiladu.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Heddlu yn gorfodi Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ac mae CNC yn gorfodi'r Rheoliadau Cynefinoedd.